# HANES ALEXANDER FAWR.



ALEXANDER, yr hwn a elwir ALEXANDER FAWR, ydoedd fab ac olynydd i Philip, brenin Macedonia. Ganwyd ef ar y 6ed o fis Gorphenaf, yn y flwyddyn 355 cyn geni Crist, yr un dydd, meddir, ag y llosgwyd teml fawr Diana yn Ephesus. Ar adeg ei enedigaeth yr oedd ei dad newydd gymeryd dinas Potidea, a derbyniodd dri o newyddion pwysig ar yr un diwrnod; yn gyntaf, fod ei gadfridog Parmenio wedi enill buddugoliaeth fawr ar yr Illyriaid; yn ail, fod ei redegfarch wedi enill yn y campau Olympaidd; ac yn drydydd, fod ei wraig Olympias wedi cael ei gwely ar Alexander.

### EI DDYDDIAU BOREUAF.

Dywedir fod Alexander, pan yn fachgen, o duedd tra chymedrol; ac er ei fod yn fywiog, neu yn hytrach yn derfysglyd mewn ymarferion ereill, nid oedd yn hawdd ei gyffroi at bleserau a moethau corphorol; ac os ymwnelai â hwy o gwbl, byddai hyny gyda'r cymedroldeb mwyaf. Ond yr oedd rhywbeth yn aruchel a mawreddog yn ei uchelgais, yn mhell uwchlaw ei flynyddoedd. Nid pob math o anrhydedd a geisiai efe, ac nid yn mhob cyfeiriad ychwaith, fel ei dad Philip, yr hwn oedd mor falch o'i hyawdledd ag y gallasai unrhyw athronydd neu areithiwr fod, a bu mor ynfyd a chofnodi ei orchestion yn y campau Olympaidd ar ei fathodynau arian. Alexander, ar y llaw arall, pan cfynwyd iddo gan rai o'r bobl a fyddai iddo ymgystadlu yn y rhedegfa Olympaidd, a atebodd (er ei fod yn hyned o gyflym ar ei droed,) "Mi a ymgeisiwn pe cawn freninoedd i gydymgais â mi."

Ar un tro daeth negesseuwyr o Persia i lŷs Philip, pan oedd efe yn absenol ar hynt filwrol, a derbyniwyd hwy gan Alexander, y pryd hyny yn fachgen, yn ei le, a mawr synwyd hwy gan ei ddoethineb a'i arabedd. Ni ofynodd iddynt gwestiynau plentynaidd a dibwys, ond ynghylch y pellder i'r fan a'r fan, ac yn nghylch y tramwyfeydd trwy daleithiau uchaf Asia; dymunai gael gwybod nodwedd eu brenin, yn mha ddull yr ymddygai at ei elynion, ac yn mha beth yr oedd nerth a gallu Persia yn gynwysedig. Tarawyd y cenadon â syndod, ac edrychent ar y mab fel yn tra-rhagori ar y tad mewn athrylith a doethineb.

Pa bryd bynag y dygid adref y newydd fod Philip wedi cymeryd rhyw ddinas neu amddiffynfa gref, neu wedi enill rhyw frwydr fawr, yn lle ymddangos yn falch am hyny, dywediad cyffredin Alexander wrth ei gyfeillion fyddai, "Bydd i'm tad fyned yn mlaen fel hyn gan orchfygu, fel na bydd dim neillduol i mi a chwithau i'w wneyd ar ei ol ef." Gan nad ymgeisiai am na


Digitized by Google

phleser na chyfoeth, ond am ogoniant a gwrhydri, tybiai mai po mwyaf eang y byddai y tiriogaethau a dderbyniai ar ol ei dad, mai lleiaf oll o le fyddai iddo ef arddangos ei hun. Ystyriai ychwanegiad pob talaeth newydd yn gyfyngiad ar y maes fyddai ganddo ef i chwareu arno; oblegyd nid ewyllysiai enill teyrnas a ddygai iddo anrhydedd, moethau, a phleserau, ond un lle y caffai ddigon o ryfela a brwydro, a'r holl ymarferion cyfaddas i'w uchelgais rhyfeddol ef.

Pan ddarfu i Philonicus, y Thessaliad, gynyg y ceffyl Bucephalus ar werth i Philip am dair talent ar ddeg, aeth y brenin, a'r tywysog, ac amryw ereill, i'r maes i'w weled. Ymddangosai y ceffyl yn hynod wyllt ac afreolus, ac ni allai yr un o'r marchweision ei drin, chwaithach myned ar ei gefn. Philip, wedi cythruddo o herwydd iddynt ddwyn y fath farch iddo ef, a orchymynodd iddynt ei gymeryd ymaith. Ond Alexander, yr hwn a ddaliasai sylw yn fanwl ar y ceffyl, a ddywedodd, "Y fath geffyl ardderchog y maent yn golli, o ddiffyg medr ac yspryd i'w drin!" Ar y cyntaf ni wnaeth Philip un sylw o hyn; ond trwy i Alexander ail-adrodd y geiriau amryw weithiau, gan arddangos cryn anesmwythder, ei dad a ddywedodd, "Ddyn ieuangc, yr ydych yn beio rhai hynach na chwi eich hun, megys pe byddech yn gwybod mwy na hwy, neu y gallech drin y march yn well." "Medrwn wneyd hyny hefyd," meddai y tywysog. "Beth fydd i chwi fforffetio, os methwch?" ebai ei dad. "Mi a fforffetiaf bris y ceffyl," atebai Alexander. Ar hyny cydsyniodd ei dad, a nesaodd y tywysog at y march, ac wedi gafael yn y ffrwyn, trôdd ei ben at yr haul—oblegyd sylwasai fod cysgod y march, wrth symud i'w ganlyn fel y symudai ef, yn ei ddychrynu. Wedi ei dawelu trwy ei guro yn ysgafn â'i law, a sisial wrtho, efe a neidiodd yn sydyn ar ei gefn, ac a aeth ymaith ar garlam. Yn mhen ychydig amser dygodd ef yn ol, wedi ei drwyadl feistroli! Philip ei dad a waeddodd allan, wedi iddo ddychwelyd yn ddiangol, "Chwilia am deyrnas arall, fy mab, yr hon a fyddo yn deilwng o dy alluoedd, oblegyd y mae Macedonia yn rhy fechan i ti!"

Pan aeth Philip ar ryfelgyrch yn erbyn Byzantium, nid oedd Alexander ond un ar bymtheg oed, er hyny gadawyd ef yn rhaglaw ar Macedonia, ac yn geidwad sêl y deyrnas. Yn ystod ei raglawiaeth ef gwrthryfelodd y Medariaid, ac ymosodwyd ar eu dinas gan Alexander, yr hon a gymerodd efe, ac a alltudiodd y barbariaid o honi, gan blanu yn eu lle drefedigaeth o bobl a gasglasai efe a wahanol leoedd, ac a'i galwodd Alexandropolis. Efe hefyd a ymladdodd yn mrwydr Cheronea, yn erbyn y Groegiaid, a dywedir mai efe oedd y cyntaf erioed a dorodd "fintai gysegredig" y Thebiaid. Yn ein hamseroedd ni yr oedd hen dderwen yn cael ei dangos gerllaw y Cephisus, a elwid *Derwen Alexander*, am fod ei babell wedi ei gosod i fyny oddi tani; a dernyn o dir gerllaw iddi, yn mha un y dywedir fod y Macedoniaid wedi claddu eu meirw.

Darfu i alluoedd y milwr ieuangc beri i Philip fod yn dra hoff o'i fab, a chyda phleser y clywai y Macedoniaid yn galw Alexander yn "frenin," ac efe ei hun yn ddim ond "cadfridog." Er hyny torodd cynen allan yn fuan yn y teulu, a hyny yn benaf o achos merch; ac fel hyn y bu:—Yr oedd Philip wedi syrthio mewn cariad â merch ieuangc o'r enw Cleopatra, ac er ei fod mewn gwth o oedran, efe a'i priododd. Yn y briodas, tra yr oeddynt yn gwledda, ei hewythr Attalus, wedi ymlenwi o win, a anogodd y cwmni i weddïo ar y duwiau ar fod i'r briodas hon rhwng Philip a Cleopatra gynyrchu etifedd cyfreithlawn i'r goron. Alexander, wedi ei gythruddo trwy hyny, a ddywedodd, "Beth! a wyt ti yn awgrymu mai mab ordderch ydwyf fi?" Ar yr un pryd efe a gyfododd, ac a daflodd ei gwpan at ei ben. Ar hyny Philip a gododd ar ei draed, ac a dynodd ei gleddyf; ond yn ffodus i'r ddau, yr oedd y brenin mor feddw fel y syrthiodd ar y llawr. Wrth ei weled, gwaeddodd Alexander, "Wŷr Macedon, gwelwch y dyn sydd yn ymbarotoi i groesi o Ewrop i Asia!

Nid yw yn alluog i symud o un bwrdd i'r llall heb syrthio." Yr oedd Philip ar y pryd yn parotoi ei fyddinoedd i fyned yn erbyn y Persiaid. Wedi yr ymrafael yma â'i dad, efe a gymerodd ei fam Olympias gydag ef, ac a'i sefydlodd yn Epirus; tra y cymerodd efe ei hun noddfa yn Illyricum.

Yn fuan ar ol hyn, dyn ieuangc o'r enw Pausanius, yr hwn a ddywedai iddo gael cam gan Attalus a Cleopatra, a apeliodd at y brenin am gyfiawnder, yr hyn a wrthodwyd iddo. Y canlyniad fu iddo ladd Philip.

### EI DDYRCHAFIAD I'R ORSEDD.

Wedi marw Philip dewiswyd ei fab Alexander (ac efe yn 20 mlwydd oed,) yn ben tywysog y Groegiaid i ddwyn y rhyfel yn mlaen yn erbyn y Persiaid; yr hyn a ddygwyddodd yn y flwyddyn gyntaf i Darius, a'r flwyddyn cyn geni Crist 335. Gwedi darostwng o hono dan ei awdurdod ei lywodraeth gartrefol, croesodd yr Hellespont, sef cyfyngfor rhwng Ewrop ac Asia leiaf. Nid oedd ei fyddin ond deng mil ar hugain o wŷr traed, a phum' mil o wŷr meirch; er hyny goresgynodd holl ymerodraeth Persia, a rhan o'r India. Nid oedd ychwaith yn ei drysorfa pan gychwynodd ond deg talent a thriugain, sef oddeutu 14,437*l.* 10*s.* o'n harian ni. Eto gan ei fod ar orchwyl drwy drefniad yr Hollalluog (er na wyddai hyny,) ni bu arno eisiau dim, ac a lwyddodd yn mhob peth ond adferu Babilon, yr hyn nis gallai am ei bod wedi ei diofrydu i ddinystr. Yn mhen ychydig ar ol croesi yr Hellespont ymladdodd y frwydr gyntaf â'r Persiaid wrth afon Granicus, yn nhalaeth Mysia, yn Asia leiaf; ac a enillodd fuddugoliaeth fawr, er fod y Persiaid yn bum' waith yn fwy eu nifer na'r eiddo Alexander. Yr oedd Darius, cyn dechreu y frwydr hon, mor ddiystyr o Alexander fel y gorchymynodd ei ddal a'i guro â gwiail, ac wedi hyny ei ddwyn ger ei fron; ond buan y cyfnewidiodd ei feddwl am dano. Ffrwyth y fuddugoliaeth hon oedd cael meddiant o Sardis, lle yr oedd holl drysorau Darius; ac ymostyngiad rhan fawr o Asia leiaf, yr hon a orphenodd ei darostwng yn fuan wedi hyny. Yn y cyfamser yr oedd Darius yn ymbarotoi i amddiffyn ei deyrnas. Memon, ei ben-cadben, a'i cynghorodd ef i ddwyn y ryfel i Macedonia, i'r dyben i alw Alexander yn ol i amddiffyn ei wlad; gwelodd Darius resymoldeb y cynghor, ac ymddiriedwyd i Memon am y cyflawniad o hono; ac nid allai wneuthur gwell dewisiad, canys Memon oedd y cadben goreu, a'r doethaf oedd o ochr Darius. Pe buasid yn cymeryd ei gynghor yn mrwydr Granicus, ni chawsent y fath aflwydd; canys ei gynghor oedd atal ymladd y frwydr y pryd hyny, ond cilio yn ol ac anrheithio'r wlad o flaen Alexander fel y byddai yn rhaid iddo gilio yn ol o eisiau cynaliaeth: ond y cadbeniaid ereill ni wrandawsant arno, ac o ganlyniad arweiniwyd dymchweliad i freniniaeth Persia. Er hyny ni adawodd Memon achos Darius, ond casglodd weddillion byddin y Persiaid ar ol y frwydr uchod, gan benderfynu, wedi cyfarfod o hono â llynges Persia, hwylio i dir Groeg a Macedonia, gan arfaethu gwneuthur eisteddfa y rhyfel yno; ond bu farw Memon wrth warchae ar Mitylene, o ganlyniad digalonodd Darius yn yr amcanion hyny, o herwydd nad oedd ganddo un cadben o'i gyffelyb y gallai ymddibynu arno i'r cyfryw anturiaeth. Nid oedd gan Darius bellach i ymddiried ynddo ond ei fyddinoedd dwyreiniol, y rhai a gasglodd i Babilon, yn chwe' chan' mil, ac a'u harweiniodd i gyfarfod y gelyn. Pan glybu Alexander hyny prysurodd i'w erbyn, gan gymeryd meddiant o'r bylchau sydd yn arwain o Cilicia i Syria, gan arfaethu ymladd yno. Nid oedd gan Alexander ond deng mil ar hugain o wŷr, ac nid ellid arwain ychwaneg mewn trefn brwydr yno, o herwydd cyfyngder y bylchau; ond nid oedd le i'r ugeinfed ran o fyddin y Persiaid. Gwelodd rhai o'r Groegiaid oedd yn myddin Darius yr anghyfleustra i ymladd mewn lle mor gyfyng: gan hyny cynghorwyd i dynu'r fyddin i wastadedd Mesopotamia, lle y gallai yr holl fyddin gymeryd eu rhan



Digitized by Google

ar unwaith yn y frwydr. Ond ni wrandawodd Darius ar y cynghor da hwn, am fod Alexander yn ymddangos fel pe buasai yn cilio yn ol, yr hyn a barodd i'r Persiaid bwyso yn mlaen fel y byddai iddynt ddyrysu byddinoedd Alexander yn y bylchau, lle y dechreuwyd ymladd; ond nid allai Darius estyn ei fyddin yn ddim mwy na'r eiddo y Macedoniaid, o ganlyniad trefnodd y fyddin y naill rês o'r tu ol i'r llall. Ond gwroldeb y Macedoniaid yn tori y rhês gyntaf a barodd iddi syrthio ar yr ail, a'r ail ar y trydydd, &c. fel y syrthiodd holl fyddin y Persiaid i annhrefn; yna Alexander yn pwyso yn drwm arnynt yn yr ymladd a barodd iddynt ffoi, ac wrth fathru eu gilydd, bu farw mwy na thrwy gleddyfau y Macedoniaid. Diangodd Darius, yr hwn oedd yn ymladd yn y rhês gyntaf, drwy lawer o anhawsder, ond y gwersyll y'nghyd a'r holl glud, ei wraig, ei fam, a'i blant (y rhai, yn ol arfer breninoedd Persia, a ddygasid i'r rhyfel) a syrthiasant i ddwylaw'r gelyn, a mwy na chan' mil o'r Persiaid yn feirw ar y maes. Gwedi hyn sicrhaodd Alexander iddo ei hun y taleithiau o'r tu ol, gan ychwanegu Syria at ei lywodraeth. Yr oedd gan Darius hefyd dri chant a naw ar hugain o ordderchafon, yn nghyda llawer o bendefigesau, y rhai a yrodd ymaith dan ofal gorsgordd cyn dechreu y frwydr; y rhai hyn oll a fradychodd llywydd Damascus i Alexander, wedi clywed am ffoad Darius. Yn mhlith y rhai hyn yr oedd gwraig weddw Memon, o lendid rhagorol, o'r hon y ganwyd mab i Alexander o'r enw Hercules.

## ALEXANDER YN CYMERYD TYRUS.

Y frwydr nesaf i Alexander oedd cymeryd Tyrus, yr hon oblegyd cadernid ei chaerau a orfu iddo warchae arni am saith mis; ond eto nid oedd gan Alexander un ffordd i'w chymeryd heb wneuthur sarn llydan o'r cyfandir hyd ati, canys yr oedd yn sefyll ar ynys yn y môr, ac i'r dyben hyny, cludodd gedrwydd o Libanus, a bwriodd adfeiliau yr hen Dyrus i'r môr, i'r dyben i sylfaenu y sarn, ac hefyd fel y cyflawnid y broffwydoliaeth, Ezec. xxvi. 12. Gorphenwyd y sarn yn mhen saith mis, a chymerwyd y ddinas er gwaethaf gwrthwynebiad y Tyriaid. Y mae y sarn i'w gweled hyd heddyw. Lladdodd Alexander wyth mil o'r Tyriaid wrth gymeryd y ddinas, a mynodd groeshoelio dwy fil, a gwerthodd ddeng mil ar hugain yn gaethweision. Ond achubwyd pymtheng mil yn ddirgelaidd gan y Sidoniaid, mewn llongau, wrth gymeryd y ddinas.

## EI YMGYRCH I JERUSALEM.

Y gorchwyl nesaf i Alexander oedd cymeryd Jerusalem, ac i lwyr ddïal ar yr Iuddewon am na ddaethent i'w gynorthwyo yn erbyn Tyrus. Esgus yr Iuddewon oedd eu llw o ffyddlondeb i Darius, ond nid oedd Alexander yn llarieiddio er hyny. Yn y cyfyngder hwn ymostyngodd Jadua yr arch-offeiriad, sef llywydd dan y Persiaid, a holl Jerusalem gydag ef, ger bron yr Arglwydd, mewn gweddïau ac ymbiliau. Yna cafodd Jadua ei gyfarwyddo mewn gweledigaeth, i fyned i gyfarfod Alexander gyda'r offeiriaid yn eu gwisgoedd offeiriadol. Ar ddynesiad y cyfryw offeiriaid at Alexander, cafodd yr olwg arnynt y fath effaith neillduol arno, yn gymaint ag iddo ymgrymu ger eu bron gyda pharch crefyddol, er syndod i'w holl filwyr. Gofynodd un o'i gadbeniaid iddo pa fodd yr oedd yn ymgrymu felly ger bron offeiriaid Iuddewig. Atebodd Alexander, "Pan oeddwn yn Dio yn Macedonia, ac yn myfyrio pa fodd i ddwyn y rhyfel yn mlaen yn erbyn y Persiaid, y pryd hyny mewn breuddwyd, gwelais yr arch-offeiriad Iuddewig hwn yn yr un wisg, yr hwn am hanogodd rhag petruso i fyned i Asia, gan addaw y byddai Duw yn arweinydd i mi, ac y rhoddai i mi ymerodraeth y Persiaid. A chan fy mod yn sicr, oddiwrth ei wisgiad a llun ei wyneb-pryd, mai hwn yw yr un a ymddangosodd i mi yn Dio, y mae'n ddyogel genyf fy mod yn gwneuthur y rhyfel dan arweiniad Duw, ac y bydd i mi trwy ei gynorthwy ef, orchfygu



Digitized by Google

Darius a dadymchwelyd ymerodraeth Persia, ac am hyny yr wyf yn ei addoli yn mherson yr arch-offeiriad presenol." Ar hyn trôdd Alexander drachefn at Jadua, ac a'i cofleidiodd yn garedig, ac a aeth gydag ef yn heddychol i Jerusalem, gan aberthu i Dduw yn y deml, lle y dangosodd Jadua iddo brophwydoliaeth Daniel, pen. viii. 5—7; y rhai sydd yn rhagddywedyd dymchweliad breniniaeth Persia, neu yr hwrdd deu-gorn, gan y bwch gafr un-gorn, yr hwn yw brenin Groeg, Dan. viii. 21, a xi. 3. Wedi hyn yr oedd Alexander yn fwy hyderus fyth, heb amheu dim nad efe oedd y bwch gafr yn y weledigaeth. Ar ei ymadawiad o Jerusalem gofynodd i'r Iuddewon, pa beth a fynent ganddo? dywedasant wrtho, mai mwynhau eu crefydd a'u cyfreithiau, a bod heb dalu teyrnged iddo bob saith mlynedd, am nad oedd eu cyfreithiau yn goddef iddynt hau na medi y flwyddyn hono; yr hyn oll a ganiataodd yn rhwydd iddynt.

Wedi hyn aeth Alexander i Gaza, dinas gadarn, a byddin gref o'i mewn, dan lywydd perthynol i Darius. Gorfu i Alexander roddi dau fis o warchae arni cyn ei chymeryd, yr hyn a'i ffromodd yn aruthr, oherwydd hyny lladdodd ddeng mil o'r trigolion, a gwerthodd y lleill ynghyda'r gwragedd a'u plant i gaethiwed; a Betis, blaenor y ddinas, a gafodd dyllu ei sodlau, a'i rwymo o'r tu ol i'w gerbyd, a'i lusgo oddiamgylch y ddinas hyd farwolaeth; yn yr hyn yr ymffrostiodd Alexander ei fod yn dynwared Achilles, un o'i henafiaid, yr hwn a lusgodd gorph Hector oddi amgylch Caer Droya, fel y dywed Homer y bardd Groegaidd.

### ADEILADU ALEXANDRIA.

O Gaza aeth Alexander i'r Aipht, a chyrhaeddodd Pelusium, prif ddinas y wlad, lle derbyniwyd ef fel noddwr rhag y Persiaid. O Memphis aeth i ymweled â theml Jupiter Hammon, yr hon oedd oddeutu dau can' milldir o'r Aipht, yn niffaethwch Lybia; ond cyn cyrhaedd y deml, anfonodd genadon i wobri ei hoffeiriaid, ac i ddywedyd mai mab Jupiter Hammon ydoedd, yr hwn ynfydrwydd a dderbyniodd gwedi darllen o hono waith Homer, lle mae rhyfelwyr enwog yn cael eu priodoli yn feibion i ryw dduwiau anrhydeddus. Ond yn y ffordd hon sylwodd am le cyfleus i adeiladu dinas ar fin Môr y Canoldir; ac ar gyfer ynys Pharus y gorchmynodd sylfaenu dinas yr hon a alwodd oddiwrth ei enw ei hun yn Alexandria, yr hon am oesoedd lawer a fu yn brifddinas yr Aipht, ac yn benaf yn y dwyrain am fasnach.* Y pensaer

* Sefyllfa y dref hon sydd dra hylaw, rhwng y Môr Coch a Môr y Canoldir, ac ar y gaingc fwyaf gorllewinol o'r afon Nile ar dir isel; canys prin y canfyddir hi hyd nes yr eir iddi. Yr oedd yn dref anrhydeddus yn yr hen amser, fel y tystia olion ei hadeiladaeth, yn enwedig y tyrau mawrion sydd eto yn sefyll, yn y rhai yr oedd ffynonau, oherwydd y dyfrffosydd a weithiwyd i ddwyn dwfr o'r Nilus iddynt. Ei hen byrth sydd yn ymddangos yn rhagorol, oherwydd eu hadeiladu â main mynor. Fe'i cyfrifid gynt yn ail i Rufain, ac yr oedd yma fasnach fawr gan drysorau yr India Ddwyreiniol. Ond wedi cael allan Benrhyn deheuol Affrica collodd lawer yn ei masnach, fel nad yw yn awr yn amgen nag un heol yn cyfeirio i'r llongborth. Y mae yma ddau borthladd, un i longau Ewrop, a'r llall i longau Twrci. Alexander fawr, sef ei hadeiladydd, a gladdwyd yn Memphis yn yr Aipht, mewn arch o aur, ond a gyfodwyd oddiyno i'w gladdu yn y dref hon, lle y gorphwys hyd yr adgyfodiad oddiwrth ei lafur blin dan haul. Yr oedd yma gynt lyfrdy ac ynddo 700,000 o gyfrolau *(volumes,)* y rhai a losgwyd gan yr Arabiaid, sef yr un a'r Saraceniaid neu'r Tyrciaid, y rhai oeddynt deulu Gog a Magog: buwyd chwe' mis yn eu llosgi i dwymo yr ymdrochdai, yr hyn a ddygwyddodd oddeutu'r fl. 642. Philosophydd dysgedig o'r grefydd Aristotlaidd a ofynodd am y lyfrgell freninol hon i dywysog y Saraceniaid, yr hwn droe y philosophydd a'i gofynodd i'r Ymerawdwr; ond ateb yr Ymerawdwr oedd, *Os cynnwysai y llyfrau hyny yr hyn oedd yn yr Alcoran, nad oedd achos am danynt, gan fod yr Alcoran yn ddigon; ac os na chydsynient â*



Digitized by Google

ydoedd Democrates, yr hwn yn ei oes oedd enwog am ail adeiladu o hono deml Diana yr Ephesiaid, ar ol ei llosgi gan Erostratus. Wedi gosod y gwaith dan ofal Democrates, aeth Alexander tua theml Jupiter Hammon, drwy ddiffaethwch tywodlyd, lle yr oedd mewn perygl o gael ei gladdu gan y llychfeydd tywodog, fel y claddwyd byddin Cambyses cyn hyny; ac hefyd yr ydoedd mewn perygl o drengu gan syched; ond gwaredwyd ef a'i wŷr gan gawod o wlaw pan oeddynt oll ar feirw o eisiau dwfr. Ac yn wir gellir barnu y darfuasai am dano ganwaith oni buasai ei gynaliaeth oddi uchod i gyflawni dybenion yr Arglwydd. Ond wedi cyrhaedd y deml addolodd yno, a gofynodd i'r oracl, a oedd marwolaeth ei dad wedi ei gwbl ddialu, pryd yr atebodd hwnw, "Nid dyn marwol oedd dy dad, na fydded i ti siarad fel yna am dano." Mewn canlyniad i hyny, derbyniodd gan yr oracl yr hysbysiad ei fod yn fab Jupiter Hammon; yr hwn hefyd a'i hysbysodd yn mhellach fod marwolaeth ei dad tybiedig wedi ei gyflawn a'i lwyr ddialu. Wedi hyny honodd yn ei lythyrau, ei orchymynion, a'i gyfreithiau, ei fod yn FRENIN ALEXANDER MAB JUPITER HAMMON, gan gyhoeddi fod y duw hwnw ar lun sarph wedi ei genedlu o Olympias ei fam. Yr oedd llawer yn ei ffieiddio am ei ynfydrwydd gwallgofus yn hyn; ond dangosodd greulondeb nid bychan ar y rhai a amheuai ei faboliaeth o Jupiter, ac aeth rhagddo mor uchelfrydig ag i gymeryd yr enw duw, ac i ofyn addoliad gan bawb a ddynesai ato!!

Ar ei ddychweliad o Lybia, ail olygodd Alexandria, gan anog y gwaith yn mlaen, a rhoddi yr un breintiau dinesig i'r Iuddewon ag i'r Macedoniaid, ac yr oedd rhyddid crefyddol i'r naill a'r llall o honynt, trwy yr hyn y rhagwelodd Alexander y buan boblogid ei ddinas newydd. Oddiyma dychwelodd i Memphis. Dyma yr amser, sef y bedwerydd flwyddyn o deyrnasiad Darius Codomànus, y mae Ptolomy yn diweddu teyrnasiad y Persiaid, a dechreuad teyrnasiad Alexander yn y dwyrain, sef o'r amser yr adeiladwyd Alexandria yn yr Aipht.

## LLWYR ORCHFYGU BYDDIN DARIUS.

Wedi hyny aeth Alexander i chwilio am Darius, yr hwn oedd wedi taer ddeisyf dair gwaith am heddwch; ac yn y daith hon daeth i Samaria, lle dialodd waed Andromachus ei raglaw, yr hwn a laddwyd gan y Samariaid; ond yn awr am hyny lladdodd bawb oedd a llaw yn ei farwolaeth. Deallodd Darius nad oedd heddwch iddo heb roddi i fyny ei deyrnas i Alexander; gan hyny casglodd Darius fyddin yn Babilon o un cant ar ddeg o filoedd, gan feddwl ymladd y frwydr yn nghylch y fan lle safodd Ninife. Cyfarfyddodd Alexander ef wrth Caugamela, ac ymwersyllodd y ddwy fyddin yn ngolwg y naill y llall, yn barod i'r frwydr oedd ar gymeryd lle. Un noson yn mis Medi, rywbryd tua dechreuad gwyl y dirgeledigaethau mawrion yn Athen,

*hwnw nad oeddynt i'w gadael;* ac felly gorchmynwyd eu difa. Llosgwyd yma lyfrgell cyn hyny, yn ddamweiniol, gan Julius Cæsar, wrth gymeryd y dref drwy ryfel. Cynwysai y llyfrgell hono 400,000 o gyfrolau. Tebygol na chynwysai yr holl lyfrau hyn fawr amgen na dychymygion paganaidd, ac eilunaddoliaeth, yr hyn sy'n lleihau y golled ohonynt. Er hyny, gellir barnu fod croniclau breninol yn eu plith, yn nghyda bywydau yr hen enwogion yn eu rhyfeloedd; ac felly buasai yr achubiaeth o honynt yn werthfawr heddyw yn y sefyllfa haneryddol. Yma yr oedd y golofn a elwir Nodwydd Cleopatra, yr hon sydd yn awr wedi cael ei dwyn i Loegr, a cholofn Pompey, yr hon sydd yn un darn o wenithfaen 70 troedfedd o uchder, a 25 troedfedd o amgylchiad; ac hefyd Goleudy Pharos, a gyfrifid gynt yn un o Saith Ryfeddod y byd.

Yn y dref hon y ganwyd Apolos, Act. xviii. 24; a bernir i Marc yr Efengylwr bregethu yma; ond yn awr nis gall ei chrefydd fod yn amgen na Mahometiaeth. Goddefodd Alexandria ryfeloedd trymion o oes i oes.



Digitized by Google

dygwyddodd i ddiffyg mawr ar y lleuad gymeryd lle; a'r unfed noswaith ar ddeg ar ol y diffyg hwnw, yr oedd holl wŷr Darius dan arfau, ac yntau ei hun yn eu hadolygu wrth oleuni ffaglau. Wrth weled yr holl wastadedd wedi ei orchuddio gan ffaglau y barbariaid, a chlywed twrw a therfysg echrydus y gwersyll, Parmenio, ac amryw o bencadbeniaid Alexander, a ddaethant ato, gan ei gynghori i ymosod ar y gelyn yn nhywyllwch y nos, yn hytrach nag wynebu y fath lu ofnadwy gefn dydd goleu; i'r hyn y rhoddodd Alexander yr atebiad nodedig hwnw, "Ni bydd i mi ladrata buddugoliaeth." Ymgyfarfu y ddwy fyddin bore dranoeth, ac er i'r frwydr fod am beth amser yn amheus, yn y diwedd llwyr orchfygwyd byddin luosog y Persiaid, gyda deng mil a deugain o wŷr, mewn gwlad agored. Gorphenodd y frwydr hon roddi holl lywodraeth Persia i Alexander. Wedi i'r frwydr fyned trosodd, y peth cyntaf a wnaeth oedd aberthu offrymau costfawr i'r duwiau, ac wedi hyny cyflwyno rhoddion gwerthfawr i'w gyfeillion, yn cynwys palasdai, etifeddiaethau, a llywodraethau. Petrusai un o'i gyfeillion dderbyn ei rodd, am ei bod yn rhy fawr—nad oedd efe yn deilwng o'r fath rodd oruchel; i'r hyn yr atebodd Alexander, "Os ydyw yn rhy fawr i ti ei derbyn, nid yw yn rhy fawr i Alexander ei rhoddi."

### LLOSGI PALAS YMERODROL PERSIA.

Aeth Alexander wedi hyn i Persepolis, prif ddinas ymerodraeth Persia lle yr eisteddodd ar y gadair freninol mewn rhwysg ac urddas mawr. Wrth fyned trwy y ddinas, efe a ganfu gerfddelw fawr o Xerxes, yn gorwedd ar lawr, wedi ei thaflu oddiar ei bonsail; ac meddai, gan lefaru megys wrth y ddelw, "A gawn ni dy adael fel yr wyt, o achos y rhyfel a wnaethost ar wlad Groeg, ai ynte dy godi i'th le yn dy ol, er mwyn dy fawrfrydigrwydd a'th rinweddau ereill?" Ond myned yn mlaen a wnaeth, gan ei gadael fel yr oedd. Yma ymroddodd i loddest a meddwdod o lawenydd am ei lwyddiant yn ei ryfeloedd; yma yr oedd y gordderchafon, ac yn eu plith Thias, yr hon a fuasai yn butain gyhoedd yn Athen; dywedodd hon wrth Alexander mai gwych fyddai llosgi Persepolis, i ddïal y Groegiaid ar y Persiaid, yn neillduol am waith Xerxes yn llosgi Athen. Derbyniwyd ei chyngor gyda chanmoliaeth mawr gan Alexander a'i holl gadbeniaid. Gwedi darfod ei llosgi, bu edifar gan Alexander pan sobrodd o'i win. Fel hyn, trwy anogaeth putain feddw, y llosgwyd gan frenin meddw, un o'r palasau godidocaf yn y byd.

### MARWOLAETH A CHLADDEDIGAETH DARIUS.

Gwedi brwydr Gaugamela, ffodd Darius i Media, lle y dylynwyd ef gan Alexander, gwedi ei wleddoedd a nodwyd; ac wrth i Darius ffoi oddi yno syrthiodd i ddwylaw lleiddiaid yn mhlith ei gyfeillion, y rhai a'i harchollasant hyd farwolaeth; ac felly newydd farw y cafwyd ef gan Alexander, yr hwn a alarodd uwch ei ben, ac wedi bwrw ei gochl drosto, gorchymynodd ei bêrarogli, a'i amdoi â hi, a'i ddwyn at ei fam i Susa, i gael ei gladdu yno âg arwyl freninol, yn nghladdfa breninoedd Persia. Caniatawyd yr holl draul i'w gladdu gan Alexander, allan o'i drysorfa ei hun, ac efe a dderbyniodd ei frawd, Oxathres, i blith ei gyfeillion mynwesol.

### EI YMGYRCH I INDIA.

Gwedi hyn buddugoliaethodd Alexander ar amryw o deyrnasoedd a chenedloedd, ac ymddarostyngodd pawb iddo; a byddai yn rhy faith nodi yma ei ryfeloedd â hwynt; ond nis gallwn adael ei daith i'r India, yr hon a fwriadodd fel na byddai dim yn ol ynddo o Bacchus a Hercules, dau o feibion Jupiter, am y rhai y darllenasai yn yr hanesion Groegaidd, eu bod wedi



Digitized by Google

arwain byddinoedd i'r India; a chan ei fod yntau wedi ei gyhoeddi yn fab Jupiter, yr oedd am ateb i'w enw.

Ar y pryd gorchymynai addoliad gan bawb a nesaent ato, yr hwn ymddyggiad oedd hynod o annymunol gan ei hen gyfeillion, ond nid gan neb yn fwy na Callisthenes y philosophydd, yr hwn oedd yn gâr i Aristotle, hen athraw Alexander Fawr. Afferiad y brenin, yn ei wleddoedd, wedi iddo yfed ei hunan, fyddai estyn y cwpan i un o'i gyfeillion. Y cyfaill hwnw, wedi iddo dderbyn y cwpan, yn ddiatreg a godai ar ei draed, a chan droi at y man lle y safai y duwiau teuluol, i yfed, efe a addolai, ac yna a gusanai Alexander. Wedi hyny eisteddai wrth y bwrdd. Ar un adeg yr oedd yr holl wahoddedigion wedi gwneyd hyn, oddigerth Callisthenes. Pan ddaeth ei dro ef, efe a yfodd, ac yna a ddynesodd i gusanu y brenin. Ond un o'r enw Demetrius a waeddodd allan, "Na dderbyn ei gusan, O frenin, canys efe yn unig ni'th addolodd di." Felly Alexander a'i gwrthododd; a Callisthenes a ddywedodd yn uchel, "Byddaf yn myned adref yn dylotach o un gusan, dyna y cwbl." Nis gallodd Alexander oddef hyfdra ei geryddwr am ei ffolineb, am hyny efe a'i rhoddodd i farwolaeth, yr hon weithred sydd yn pwyso yn dra thrwm ar ei enw da.

Ar ei gychwyniad i'r India, yr oedd ei fyddin yn chwe' ugain mil, ond efe a ganfu fod ei filwyr wedi eu gorlwytho gan yr ysglyfaeth a gymerasent fel yr oeddynt yn anghyfaddas i ymdeithio. Gan hyny, yn gynar yn y bore ar ba un yr oeddynt i gychwyn, wedi i'r cerbydau gael eu casglu yn nghyd, efe a osododd dân yn ei glud (*baggage*) ei hun ac eiddo ei gyfeillion; ac yna rhoddodd allan orchymyn ar fod i bawb ereill gael ymddwyn atynt yn yr un modd. Ymddangosai fod y penderfyniad yn anhaws dyfod iddo nag oedd gweithredu yn ei ol. Ychydig a deimlent yn anfoddlawn, ond derbyniwyd y gorchymyn gan niferi mawrion gyda banllefau o lawenydd. Cyfranasant yn rhwydd o'u clud i'r rhai oedd yn ddiffygiol, a llosgasant y gweddill ag oedd yn afreidiol. Parodd hyn galondid mawr i Alexander, ac enynodd ynddo benderfyniad gor-egnïol i fyned yn mlaen.

Wedi ymryddhau fel hyn, efe a gychwynodd i'w daith, yn nghyda'i fyddin, gan ddarostwng y gwledydd oedd yn ei ffordd, sef y parthau oedd tu yma i afon Indus. Yn mhlith y rhai a orchfygodd efe yr oedd cenedl o'r enw Assacaniaid, brenines y rhai, o'r enw Clophis, a ryddhaodd ei gwlad drwy ymddarostwng i drythyllwch gydag Alexander, yr hyn a'i gwnaeth mor warthus a ffiaidd yn ngolwg ei chenedl fel na dderbyniodd well enw ganddynt o hyny allan na'r "Butain freninol." Ganwyd iddi fab mewn canlyniad i'r ymgyfathrach hwn, a galwyd ef ar enw ei dad, Alexander, yr hwn, yn nghyda'i hiliogaeth, a lywodraethasant am oesoedd lawer wedi hyny ar y wlad hono.

Wedi sefydlu pethau y tu allan i'r afon Indus, croesodd yr afon ar bont o gychod. Wedi myned drosodd efe a aeth rhagddo tua thiriogaethau y brenin Porus, a'r canlyniad o hyny a fu

BRWYDR WAEDLYD RHWNGDDO A PORUS,

yr hwn, er ei fod yn dywysog gwrol a galluog, a orchfygwyd, wedi ymladd o hono frwydr anarferol o ffyrnig a phenderfynol, ac efe ei hunan a gymerwyd yn garcharor. Wedi ei ddwyn o flaen Alexander, y penaeth hwnw a ofynodd iddo, "Pa fodd y dymunet i mi ymddwyn tuag atat?" Yntau a atebodd, "Fel at frenin." "Onid oes rhywbeth arall a ewyllysiet?" ebai Alexander. "Nac oes," atebai Porus, "y mae y cwbl yn gynwysedig yn y gair 'brenin.'" Yna Alexander, wedi sylwi ar weddeidd-dra ei ymddygiad yn ei adfyd, a'i hadferodd i'w freniniaeth, ac a ychwanegodd at ei lywodraeth yr holl wlad oedd i'r dwyrain iddi, yn cynwys pymtheg o genedloedd, pum' mil o ddinas-

Digitized by Google

oedd mawrion, a phentrefydd mewn cyfartaledd. Yn awr cododd ddeuddeg o allorau mawrion yn goffadwriaeth o'i fod yno, a throes yn ol i osod sylfaeni dinas ar y fan y bu yn ymladd a Phorus, ac a'i galwodd Nicea; a chododd ddinas arall yn agos iddi gan ei galw Bucephalia, yn goffadwriaeth am ei geffyl Bucephalus a fu farw yno. Dywed rhai mai ei glwyfo a gafodd yn y frwydr â Porus, ac iddo farw mewn canlyniad; ond dywed Onesicritus mai marw o henaint a lludded a wnaeth, oblegyd yr oedd yn ddeng mlwydd ar hugain oed.

Oddiyno bwriadai gyrhaedd hyd afon Ganges, a chyrhaeddodd mor belled a'r afon Hydaspes, ond ni ddylynai ei filwyr ef yn hŵy yn y fath daith ynfyd a gwallgofus, am eu bod wedi clywed fod breninoedd y Gandariaid a'r Præsiaid, gyda byddin o ddau can' mil o wŷr traed, a phedwar ugain mil o wŷr meirch, wyth mil o gerbydau heiyrn, a chwe' mil o elephantiaid wedi eu dysgyblu at ryfel, yn eu haros yr ochr draw i'r Ganges, a bod yr afon yn ddeuddeg gwrhyd ar hugain o led, ac yn ddwfn aruthrol. Wrth groesi yr Indus y tro cyntaf rhoddasai orchymyn i'w holl longau, y rhai oedd dros 2000 o nifer, dan lywyddiaeth Nearchus i ddyfod at yr afon Hydaspes, ac wedi roddi ei fyddin ynddynt hwyliasant i Acesinis, ac oddi yno i'r Indus, gan fwriadu buddugoliaethu cyn belled a'r môr, trwy y parthau deheuol o India, ac oddiyno i Babilon. Llwyddodd yn ei holl amcanion yn erbyn cenedloedd lawer; ond bu agos iddo golli ei fywyd wrth gymeryd un o ddinasoedd y Maliaid; canys wedi iddo ddringo'r mur, neidiodd yn rhyfygus i lawr i'r ddinas, lle cafodd ei glwyfo yn drwm cyn i neb allu ei gynorthwyo. Hwyliodd oddi yno i lawr yr Indus hyd y môr, gan orchfygu y gwledydd oddeutu yr afon.

## YN MYNED TUA BABILON.

Wedi hyny gorchymynodd i'r llynges hwylio drwy lyngclyn Persia at geg yr Euphrates, ac oddiyno i Babilon; a chychwynodd yntau gyda'i fyddin ar hyd y tir i'w chyfarfod. Aeth drwy daleithiau deheuol Persia, lle yr oedd anial-leoedd tywodog, ac yn y cyfryw fanau collodd ran fawr o'i fyddinoedd, drwy newyn, a syched, a gwres mawr, fel nad oedd y bedwaredd ran o honynt pan ddaethant i Babilon. Yn Carmania, ar y daith hon ymroddodd ef a'i filwyr i feddwdod, gan orfoleddu am ei fuddugoliaethau yn yr India, a'i debygoliaeth yn hyny i'r duw Bacchus, yr hwn a ddychwelodd mewn cyffelyb fodd o'r India.

Tra yn myned trwy Persia, ar y daith hon, efe a gafodd fedd Cyrus wedi cael tori i mewn iddo, a pharodd i'r person a gyflawnasai y fath gysegr-yspeiliad anfad gael ei roddi i farwolaeth, er ei fod yn enedigol o Pella. Wedi darllen y beddargraff, yr hwn ydoedd yn iaith Persia, gorchymynodd iddo gael ei gerfio hefyd yn yr iaith Roeg. Fel y canlyn yr oedd:—"O ddyn! pwy bynag wyt, ac o ba le bynag yr wyt yn dyfod (canys yr wyf yn gwybod y deui,) myfi yw Cyrus, sylfaenydd ymerodraeth Persia, na warafun i mi yr ychydig bridd sydd yn gorchuddio fy nghorph." Dywedir fod Alexander wedi teimlo yn ddwys wrth ddarllen y geiriau, oblegyd dangosent iddo ansicrwydd a chyfnewidioldeb pobpeth dan haul, yn nghyda darfodedigaeth a gwagedd pob anrhydedd a gogoniant daearol.

## YN PRIODI MERCH HYNAF DARIUS.

Wedi cyrhaedd i Susa, efe a briododd ei gyfeillion â boneddigesau Persiaidd, gan roddi esiampl iddynt ei hunan trwy ymbriodi â Statira, merch hynaf Darius, ac yna rhanodd wyryfon o'r graddau uchaf yn mhlith ei brif swyddogion. Priododd Hephestion, ei ben cyfaill, y ferch ieuengaf; a phenaethiaid ereill a ymbriodasant âg ugeiniau o ferched pendefigion Persia, yr hyn a gymerodd le trwy ddymuniad Alexander, canys ei ddyben oedd gwneuthur y Groegiaid a'r Persiaid yn un genedl dan ei lywodraeth. Talodd Alexander waddol y pen-

defigesau o'i drysorau ei hunan, ac nid oedd hyny yn anhawdd iddo, canys yr oedd ganddo yn Ecbatana yn unig gant a phedwar ugain a deg o filoedd o dalentau, sef yn nghylch pymtheng miliwn ar hugain o'n harian ni, heblaw trysorfa arall yn Babilon a manau ereill o'i deyrnas. Efe hefyd a arlwyodd wledd arderchog iddynt, yn mha un y dywedir fod dim llai na naw mil o wahoddedigion wedi eistedd wrth y byrddau; ac eto dywedir iddo anrhegu pob un o honynt â chwpan aur, fel y byddai iddynt yfed y gwinoedd o honynt. Yr oedd pobpeth arall ar yr unrhyw raddeg fawreddog; ie, efe hyd yn nod a dalodd ymaith eu holl ddyledion; yn gymaint a bod yr holl dreulion yn cyrhaedd i naw mil, wyth gant a deg a thriugain o dalentau.

### EI YSBLEDDACH YN ECTABANA.

Pan oedd Alexander yn Ecbatana ar y daith hon, wedi myned trwy y gorchwyliaethau gwladol mwyaf pwysig, efe a ymroddodd i chwareuyddiaethau a meddwdod gyda'i gyfeillion, ac yfodd yn nghylch deugain o'i benaethiaid eu hunain i farwolaeth, ac yn eu plith Hephastion, ei anwylaf gyfaill, ar ol yr hwn y bu Alexander yn dra galarus; a pharodd groeshoelio ei feddyg am nad allai ei feddyginiaethu, yr hwn a wnaeth ei oreu iddo yn ei glefyd, drwy daer ddymuno arno beidio â chig a gwin, ond y claf ni ddefnyddiodd y cynghor; eithr pan oedd y meddyg wedi myned i'r chwareudy, efe a fwytaodd aderyn wedi ei rostio, ac a yfodd gwpanaid o win; ar ol hyny efe a aeth yn waeth, ac a fu farw yn mhen ychydig ddyddiau. Y mae gwaith Alexander yn croeshoelio y meddyg druan yn arddangos creulonedd mawr ynddo; osnad oedd yn ei gospi mor dost am adael o hono y goddefydd, ac yntau yn y fath berygl dirfawr, i fyned i le mor wagsaw a'r chwareudy.

Yr oedd galar Alexander ar ol ei gyfaill Hephastion yn afresymol. Efe a orchymynodd gneifio y meirch a'r mulod, fel y caffent hwythau ran yn y galar, ac i'r un perwyl efe a dynodd i lawr furganllawiau y dinasoedd amgylchynol. Gwaharddodd hefyd y chwibanogl a phob rhyw gerdd yn ei wersyll am yspaid maith o amser. Parhaodd hyn hyd nes y cafodd genadwri oraclaidd oddiwrth Jupiter Hammon, yr hon a orchymynai iddo fawrygu Hephastion, ac aberthu iddo fel hanerdduw. Wedi hyn efe a geisiodd liniaru ei ofid trwy hela, neu yn hytrach trwy ryfel; canys dynion oedd ei helwriaeth ef. Dyma fu yn achlysur

### EI RYFEL A'R CASSEAID,

cenedl ryfelgar yn mynyddoedd Media, y rhai ni allodd y Persiaid erioed eu darostwng. Bu ddeugain niwrnod cyn eu llwyr orchfygu; yr hyn a'i cythruddodd i'r fath raddau fel y gorchymynodd roddi i farwolaeth bawb oedd wedi tyfu i fyny i oedran a synwyr. Galwai hyn yn aberth i "ddrychiolaeth" Hephastion! Yna efe a ddychwelodd yn ol dros yr afon Tigris, gan wynebu, gyda'i longau a'i filwyr, tua Babilon, lle derbyniwyd ef yn barchus gan benaethiaid rhan fawr o'r byd; o'r hwn le hefyd y bwriadodd hwylio oddi amgylch Affrica, a chwilio allan y Môr Caspia, a'r gwledydd oddi amgylch iddo, a darostwng yr Arabiaid a'r Carthaginiaid, a dwyn ei fuddugoliaethau hyd Hispaen tua'r gorllewin. Yr oedd hefyd am adferu Babilon i'w mawredd dechreuol, tuag at yr hyn y dechreuwyd cyfodi i fyny dorlanau yr afon Euphrates, yr hon oedd wedi ei hamharu drwy waith Cyrus yn cymeryd Babilon. Dechreuwyd ail adeiladu teml Belus neu Bel, yr hon a ddinystriwyd gan Xerxes; a bu deng mil o filwyr, heblaw y Magiaid, ar waith bob dydd, dros ddau fis, yn clirio y malurion, ac yn y diwedd nid oeddynt wedi gorphen lle addas i'w hail adeiladu, yr hyn sydd yn dangos mawredd yr adeiladaeth hono. Ond ni wnai yr Iuddewon oedd yn myddin Alexander gyffwrdd â'r



Digitized by Google

gwaith, am na chaniatài eu crefydd adeiladu teml eilunod; ïe, pallodd holl gospedigaethau Alexander i'w dwyn at y gorchwyl, yr hyn a barodd iddo synu, a'u gollwng o'i wasanaeth i'w gwlad eu hunain.

## EI FARWOLAETH.

Bu Alexander oddeutu blwyddyn yn Babilon, yn niwedd yr hon yr ymroes i feddwdod, drwy yfed ddyddiau a nosweithiau yn ddidòr. Wedi iddo eistedd yn hir mewn cyfarfod o gyfeddach a meddwdod gyda Nearchus, efe a aeth, yn ol ei arfer, i'r bâdd, gyda'r bwriad o fyned i orphwys. Yn y cyfamser daeth Medius ato, gan ei wahodd i gyfeddach arall, ac nis gallai ei omedd ef. Yno efe a yfodd drwy yr holl nos hono, a thrwy y dydd dranoeth, nes y dygwyd arno dwymyn boeth. Ni ddarfu i'r dwymyn ei gymeryd, fel y dywed rhai, wrth yfed y gwpan Herculaidd, yr hon a gynwysai chwe' chwart o'n mesur ni; ac ni chafodd boen sydyn yn ei gefn, fel pe buasai wedi cael ei drywanu â gwaywffon. Pethau yw y rhai hyn a ddyfeisiwyd gan ysgrifenwyr, y rhai a dybient fod yr amgylchiad yn galw am rywbeth rhamantus ac allan o'r ffordd gyffredin. Aristobulus a ddywed iddo yfed dracht o win yn mhoethder y dwymyn, i dori ei syched angerddol, yr hyn a ddyrysodd ei synwyrau, ac iddo farw ar y 30ain o Fehefin, wedi teyrnasu wyth mlynedd ar ymerodraeth Persia, a deuddeng mlynedd a haner ar ol ei dad, yn dair ar ddeg ar hugain oed. Ac felly y dybenwyd holl frwydrau y tywysog mawr a gwagogoneddgar hwn; wedi darostwng o hono yr holl wledydd o fôr Adria hyd o fewn ychydig i'r afon Ganges, yr hyn oedd yn cynwys y rhan fwyaf o'r byd adnabyddus y pryd hyny. Dygwyddodd ei farwolaeth yn y flwyddyn cyn geni Crist, 323.

Ond yn ei ddyddlyfr y mae yr hanes dipyn yn wahanol; fel y canlyn y dywed hwnw. "Ar y deunawfed o fis Daesius (Mehefin,) pan ganfu fod y dwymyn arno, efe a orweddai yn ei faddgell. Dranoeth, wedi iddo ymfaddio, efe a symudodd i'w ystafell ei hun, ac a chwareuodd ddisiau am amryw oriau gyda Medius. Yn yr hwyr efe a ymfaddiodd drachefn, ac wedi aberthu i'r duwiau, efe a swperodd. Yn ystod y nos dychwelodd y dwymyn. Ar yr ugeinfed efe a ymfaddiodd drachefn, ac wedi yr aberth arferol, efe a eisteddodd yn y faddgell, gan ymddifyru trwy wrando ar Nearchus yn adrodd hanes ei fordaith, a'r pethau mwyaf hynod y sylwasai arnynt ar y môr. Treuliwyd yr unfed ar hugain yr un modd. Cynyddodd y dwymyn, a chafodd noswaith ddrwg iawn. Ar yr eilfed ar hugain yr oedd y dwymyn yn dra thost. Gorchymynodd i'w wely gael ei symud, a'i osod wrth y baddon mawr. Yno efe a ymddiddanodd â'i gadfridogion yn nghylch y gwagleoedd yn y fyddin, a dymunai ar fod iddynt gael eu llenwi â swyddogion profiadol. Ar y pedwerydd ar hugain yr oedd yn llawer gwaeth; er hyny mynodd gael ei gario i gynorthwyo yn yr aberthu. Efe hefyd a roddes orchymyn, fod i brif swyddogion y fyddin aros o'r tu fewn i'r llŷs, ac fod i'r lleill gadw gwyliadwriaeth drwy y nos o'r tu allan. Ar y pummed ar hugain symudwyd ef i'w balas, ar yr ochr arall i'r afon, lle y cysgodd ychydig, ond nid oedd y dwymyn yn lleihau; a phan ddaeth ei gadfridogion i'r ystafell, yr oedd yn analluog i siarad. Parhaodd felly drwy y dydd dranoeth. Y Macedoniaid, y rhai erbyn hyn a dybient ei fod wedi marw, a ddaethant at byrth y palas mewn cythrwfl ofnadwy, gan fygwth y prif swyddogion yn y fath fodd, fel y bu gorfod iddynt eu gollwng i mewn, a gadael iddynt oll basio heibio ei wely, ond yn ânarfog. Ar y seithfed ar hugain, anfonwyd Python a Seleucus i deml Serapis, i ymholi a fyddai yn well iddynt symud Alexander yno, ond hysbyswyd hwy gan yr oracl mai gwell oedd peidio ei symud. Ar yr wythfed ar hugain, yn yr hwyr, efe a fu farw." Y mae y manylion hyn wedi eu dyfynu braidd air am air allan o'i ddyddlyfr.

Digitized by Google

Y mae rhai ysgrifenwyr diweddar wedi lled-awgrymu ddarfod i Alexander Fawr farw mewn canlyniad i gael ei wenwyno; ond ymddengys nad oedd neb yn coleddu y fath dybiaeth ar adeg ei farwolaeth. Yn mhen chwe' blynedd ar ol hyny yr ydym yn darllen fod ei fam ef, Olympias, oddiar ryw hysbysrwydd a dderbyniasai, wedi rhoddi lluaws o bobl i farwolaeth, ac wedi gorchymyn fod i weddillion Iolas, yr hwn y tybid a roddodd y gwenwyn iddo, gael eu codi o'r bedd. Pa un bynag am hyny, ymddengys fod y rhan fwyaf credadwy o haneswyr yn edrych ar hanes y gwenwyno fel chwedl gwrach; ac y mae ganddynt y rheswm cadarn hwn o'u plaid—sef, er fod y corph, o achos yr ymrafaelion a gymerasant le yn mhlith y prif swyddogion dros ddyddiau lawer, wedi bod yn gorwedd heb ei ber-eneinnio mewn lle clòs, nid oedd yn arddangos unrhyw arwyddion o afliwiant, ond arosai o hyd yn iraidd a lliwgar.

## Y BROPHWYDOLIAETH AM DANO YN LLYFR DANIEL.

Darlunir Alexander fawr yn mhrophwydoliaeth Daniel vii. 6, dan yr enw *Llewpart a phedair aden a phedwar pen.* Y mae'r llewpart yn gyflym iawn, ac wrth briodoli i'r fath greadur *bedair aden*, y golygir ei fod yn gyflymach byth; felly, mewn ychydig amser y darostyngodd Alexander ran fawr o'r byd. Nid yw y llewpart ond creadur bychan, eto yn gryf ac yn greulon fel nad arswyda wynebu y llew; felly Alexander gydag ychydig filwyr ar y dechreu, er hyny bu mor gadarn ag enill y fuddugoliaeth ar Darius, yr hwn o ran ei gadernid a elwir brenin brenhinoedd, Dan. ii. 37. Y mae y *pedwar pen* yn arwyddo y byddai i frenhiniaeth Alexander gael ei rhanu yn bedair rhan, yr hyn a ddygwyddodd i'w bedwar cadben gwedi ei farwolaeth. Efe hefyd a osodir allan dan y *drydydd freniniaeth o bres*, yr hon a lywodraetha yr holl ddaear, Dan. ii. 39. Alexander hefyd a osodir allan dan yr enw *bwch geifr* yn dyfod o'r gorllewin, ar hyd wyneb yr holl ddaear, ac heb gyffwrdd â'r ddaear, pen. viii. 5. Y mae gafr yn arwydd gymhwys o'r Macedoniaid, am mai un o'u hen enwau cyntaf ydoedd, *pobl y geifr*. Arferent gynt arwydd yr *afr* ar eu baneran. Galwyd y ddinas lle claddwyd llawer o'r Macedoniaid, *dinas y geifr*; a'r môr gerllaw yn *fôr y geifr*. Yr oedd mab Alexander hefyd yn cael ei alw *mab y bwch*. Yr oedd y Persiaid hefyd yn gwisgo pen hwrdd o aur yn lle coron, ac y mae lluniau o benau hyrddod a dau gorn, un yn uwch na'r llall, i'w gweled ar y colofnau yn mhlith adfeiliau Persepolis. Lle gwelwn mai priodol i frenin Persia oedd yr enw *hwrdd deugorn*, yn ol esponiad yr angel, Dan. viii. 20; a phriodol hefyd i Alexander oedd yr enw *bwch geifr*, gan ei fod yn benaeth ar bobl o'r enw. Yr oedd y bwch geifr yn dyfod *o'r gorllewin*, am fod Macedonia i'r gorllewin o Persia; ac yr oedd yn ei ddyfodiad *heb gyffwrdd â'r ddaear*, sef yn gyflym, fel pe buasai yn ehedeg yn hytrach na theithio. Ond er mor fawr ei lwyddiant, a chymaint ei arglwyddiaeth, *torodd y corn mawr*, canys darfu am dano yn ddisymwth; *a chododd pedwer o rai hynod yn ei le*, sef ei bedwer cadben, y rhai a ranasant ei frenhiniaeth rhyngddynt *tua phedwer gwynt y nefoedd*, Dan. viii. 4—8. Dyna yr esponiad a ddyry rhai ar y weledigaeth yn llyfr y prophwyd Daniel; ond gan nad ydym ni yn proffesu esponio prophwydoliaeth nac egluro gweledigaethau, namyn cyfleu hanesyddiaeth o flaen ein darllenwyr, nid oes genym ond gadael yr eglurhad cywrain a manylgraff uchod i'w sylw a'u barn ddiduedd; a "bydded pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun."

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google